

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Gwasanaethau Mamolaeth, Ysbyty  
Glangwili, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 12, 13 a 14 Mai 2025

Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

|    |                                                                          |    |
|----|--------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                  | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....                                             | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                             | 9  |
|    | • Ansawdd Profiad y Claf .....                                           | 9  |
|    | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                               | 15 |
|    | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                              | 21 |
| 4. | Y camau nesaf .....                                                      | 27 |
|    | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... | 28 |
|    | Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....                                | 29 |
|    | Atodiad C - Cynllun gwella.....                                          | 31 |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Wasanaethau Mamolaeth, Ysbyty Glangwili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 12, 13 a 14 Mai 2025. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward cynenedigol a'r ward ôl-enedigol
- Ward esgor
- Uned a arweinir gan fydwragedd
- Uned frysbenneu a'r uned asesu dydd

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd defnyddwyr y gwasanaeth neu eu partneriaid i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu eu partneriaid a chwblhawyd 65 gan aelodau o staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â defnyddwyr y gwasanaeth a'u partneriaid mewn ffordd barchus a gwelsom dystiolaeth bod gofal yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd tawel, glân, taclus a chroesawgar. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â sawl defnyddiwr gwasanaeth a wnaeth ganmol caredigrwydd a phroffesiynoldeb y staff ac ansawdd y cymorth a gafwyd.

Dangosodd y gwasanaeth ymrwymiad cryf i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda deunyddiau hybu iechyd dwyieithog, gan gynnwys cymorth i fwydo ar y fron, a phwyslais clir ar urddas a phreifatrwydd.

Gwelsom fod y staff yn sylwgar ac yn ymateb yn brydlon i anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Hefyd, roedd dull rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau tegwch a chynhwysiant, gyda gwasanaethau cyfieithu, sensitifrwydd diwylliannol, a phwyslais cynyddol ar hyfforddiant ar amrywiaeth a chydaddoldeb. Nodwyd bod mentrau fel pasbortau mamolaeth ar gyfer unigolion niwroamrywiol a'r prosesau allgymorth mewn cymunedau ymylol fel arfer da. Roedd ymgysylltiad y staff â'r broses cynllunio gofal a phresenoldeb bydwaig profiad y claf yn cefnogi'r ddarpariaeth gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Annog y staff i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg
- Sicrhau bod yr aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn amlwg i ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Datblygu'r gwaith o roi llwybr gofal profedigaeth ar waith sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da
- Pwysleisiodd defnyddwyr y gwasanaeth bwysigrwydd cael cyfleoedd i fynd i glinigau mewn ysbytai sy'n lleol i'w cartref
- Ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy hyfforddiant ac arweinyddiaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd y broses rheoli risgiau yn seiliedig ar archwiliadau rheolaidd, cynllunio gofal dyddiol, ac adolygiadau'r tîm amlddisgyblaethol o ddigwyddiadau ac roedd prosesau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phawb o bob rhan o'r gwasanaeth. Er y gwelsom arferion cadarn, nodwyd gennym feysydd lle y gellid atgyfnerthu'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau'n genedlaethol a'r gweithdrefnau trosglwyddo.

Nodwyd bod cyflwyno System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS) yn ddatblygiad cadarnhaol, ond byddai mireinio'r prosesau archwilio ymhellach yn gwella ei heffeithiolrwydd. Ar y cyfan, dangosodd y staff ymrwymiad cryf i sicrhau diogelwch y cleifion, ac roedd tystiolaeth o'r archwiliad yn dangos cydymffurfiaeth uchel â meysydd gofal allweddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnal y broses drosglwyddo gan ddefnyddio'r fformat Sefyllfa, Cefndir, Asesu, Argymell (SBAR yn Saesneg) er mwyn sicrhau bod y staff yn deall y ffactorau risg mewn perthynas â hanes defnyddwyr y gwasanaeth a'r risgiau clinigol yn llawn
- Rhoi gwybod am ddigwyddiadau cenedlaethol yn gynnar yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru
- Gwella proses archwilio System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS) er mwyn cynnwys dadansoddiad a phroses dysgu o ganlyniadau
- Gwella cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant diogelu gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau cadw cofnodion mamolaeth
- Gwelwyd ymarfer cadarnhaol drwy gydol un sesiwn theatr
- Prosesau cadarn a gwaith effeithiol gan y tîm amlddisgyblaethol wrth adolygu'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau o bwys.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli cymharol newydd ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol a oedd yn ymddangos yn effeithiol ym mhob rhan o'r uned. Roedd yr uwch aelodau o'r tîm rheoli a'r aelodau canol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig, angerddol, cefnogol a gweledol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad wrthym eu bod yn hapus ac yn mwynhau eu swyddi.

Roedd adborth y staff yn gadarnhaol iawn, gyda'r mwyafrif yn mynegi boddhad gydag ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu a'r cymorth roeddent yn ei gael.

Roedd y staff yn teimlo'n hyderus i godi pryderon a gwnaethant ddisgrifio diwylliant cadarnhaol mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a dysgu ohonynt. Roedd y gwasanaeth wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddar am ei ddiwylliant a'i berfformiad, a disgrifiodd y staff ymdeimlad cryf o falchder a chymorth yn eu rolau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y gall y staff gael gafael ar ganllawiau a pholisïau cyfredol ar System Wybodaeth Cymru ar gyfer Dosbarthu Deunydd Obstetreg, Gynaecoleg a Bydwreigiaeth (WISDOM)
- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Wedi meithrin diwylliant gwaith cadarnhaol a diogel yn seicolegol, gydag ymgysylltiad cryf ymhlith y staff
- Cynnal cyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu
- Mae diwylliant o ddysgu wedi cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth
- Roedd yn ymddangos bod y lefelau staffio yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y gwasanaeth
- Dywedodd y meddygon eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y corff meddygon ymgynghorol.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Roedd y staff o bob lefel yn hyfryd, y ward yn lân ac roedd y bwyd yn flasus iawn."*

*"Rydym wedi bod yn fodlon iawn ar bopeth ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr."*

Yn ychwanegol at y sylwadau a gafwyd yn yr arolygon a gwblhawyd, cyfarfu'r tîm arolygu â defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd yn yr uned ar adeg yr arolygiad. Dywedodd pob un ohonynt wrthym eu bod yn hapus, ac roeddent yn canmol lefel y gofal roeddent yn ei gael.

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

#### Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ddwyieithog yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r uned er mwyn rhoi gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth sut y gallant helpu eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, Cronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant (UNICEF), mentrau sy'n addas ar gyfer babanod a chymorth bwydo ar y fron. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad yn canmol y cymorth a gawsant gan arbenigwyr ar fwydo ar y fron, yn ogystal â'r rhai hynny nad oeddent yn gallu bwydo ar y fron, neu'n dewis peidio â bwydo eu babanod ar y fron.

Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth a'u partneriaid wrthym eu bod wedi cael taflenni a llyfrynnau hybu iechyd ar hyd eu taith beichiogrwydd. Drwy ddefnyddio dolenni ymateb cyflym ar godau QR, roedd modd sicrhau bod y wybodaeth yn cynnwys cyngor ac arweiniad cyfredol. Gwnaethom edrych ar wybodaeth ar-lein briodol i ddefnyddwyr y gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan

gynnwys gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth am feichiogrwydd. Roedd y wybodaeth ar-lein ar gael mewn ieithoedd amrywiol.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn annog pobl i roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Dywedodd pob un o ddefnyddiwr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw, a'u teuluoedd, fod y staff yn eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd.

Clywsom y staff yn ymddwyn yn gwrtais, yn barod i helpu ac yn dangos disgrisiwn wrth gynnal trafodaethau sensitif er mwyn sicrhau na allai neb arall eu clywed. Dywedodd 98% o'r staff a ymatebodd i'r arolwg fod preifatrwydd ac urddas defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cynnal. Roedd llenni yn cael eu cau o amgylch y gwelyau yn y baeau er mwyn parchu preifatrwydd defnyddwyr y gwasanaeth a wnaeth roi genedigaeth yn ddiweddar.

Roedd cyfleusterau en-suite ym mhob un o'r ystafelloedd geni a rhai o'r ystafelloedd ôl-enedigaeth a oedd yn helpu i hyrwyddo cyfforddusrwydd ac urddas y cleifion yn ystod eu harhosiad. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd toiledau a rennir ar gael gerllaw.

Roedd digon o ystafelloedd ochr ar gael ar y ward lle y gellid darparu gofal preifat neu gynnal trafodaeth. Roedd toiledau ar wahân ar gael i bartneriaid geni a theuluoedd.

Roedd ystafell brofedigaeth ar gael ar y ward esgor i'w defnyddio yn achos marwolaeth yn ystod genedigaeth neu farw-enedigaeth. Roedd yr ystafell wedi'i lleoli i ffwrdd o'r ystafelloedd geni er mwyn cynnig gwell preifatrwydd ac urddas i gleifion ar adeg anodd iawn. Yn ystod ein harolygiad, roedd yr ystafell brofedigaeth yn cael ei defnyddio. Roedd hysbysebion disylw wedi'u gosod ger desg y dderbynfa ac ar y drysau a oedd yn arwain at y ward esgor er mwyn sicrhau bod y staff a defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i fod yn sensitif. Roedd bydwagedd profedigaeth yn gweithio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd i gynnig cymorth a chynghor i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u partneriaid. Dywedodd bydwraig profedigaeth wrthym fod y gwasanaeth yn ystyried cyflwyno llwybr profedigaeth yn unol â'r Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol yn ystod Beichiogrwydd ac ar ôl Colli Babi. Byddai hyn yn gwella ansawdd a chysondeb y gofal profedigaeth y mae defnyddwyr y gwasanaeth yn ei gael yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl colli babi.

Roedd yr ysbyty hefyd yn darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ystafell aml-ffydd yn yr ysbyty at ddefnydd defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd holl ddefnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu dewisiadau geni unigol wedi cael eu trafod a'u dilyn yn unol â'u dewisiadau. Dywedodd bron pob aelod o'r staff a ymatebodd i'n harolwg staff fod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hysbysu am y penderfyniadau am eu gofal, a chawsant eu cynnwys ynddynt. Gwelwyd y staff yn ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth yn eu gofal, ac yn ystyried dymuniadau'r defnyddwyr hynny ac yn eu rhoi ar waith.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod trafodaethau am y cyfnod esgor, genedigaeth, meddyginiaethau lleddfu poen a dewisiadau bwydo yn cael eu dogfennu.

Roedd bydwraig profiad y claf yn y gwasanaeth i gydgyssylltu a sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed a'i gynrychioli wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod gwasanaeth Myfyrio ar Enedigaethau ar gael i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a'i bartner a oedd wedi rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd, a oedd yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau o wasanaethau mamolaeth a myfyrio arnynt.

Yn ystod trafodaethau â'r tîm arolygu, pwysleisiodd defnyddwyr y gwasanaeth bwysigrwydd cael cyfleoedd i fynd i glinigau cynenedigol a chlinigau ôl-enedigol mewn ysbytai sy'n lleol i'w cartref. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd yn rhaid iddynt deithio'n ormodol na threulio llawer o amser yn mynd i apwyntiadau. **Nododd y tîm arolygu fod hyn yn enghraifft o arfer da.**

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod bydwraig iechyd y cyhoedd ddynodedig ar gael i weithio gyda thimau allgymorth er mwyn eu hannog i ymgysylltu â chymunedau ymylol ac amrywiol. Datblygwyd pasbortau mamolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth niwroamrywiol, neu'r rhai â phroblemau cyfathrebu. Roedd hyn yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu yn ystod apwyntiadau a phan fo defnyddwyr y gwasanaeth yn mynd i'r ysbyty.

Nododd y tîm arolygu fod hysbysfwrdd ym mhob ystafell eni ar y ward esgor a oedd yn nodi enw llawn defnyddiwr y gwasanaeth. Roedd yr hysbysfwrdd hefyd yn nodi'r enw a ffefrir ganddo. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddiwr y gwasanaeth y bydd y staff yn parchu ei hunaniaeth.

Roedd cyfleusterau yn yr ardal frysbenneu/asesu dydd i gynnal sganiau uwchsain. Roedd sganiau yn cael eu cynnal gan fydwraig sy'n sganio a oedd yn meddu ar y gallu i sganio 15 o ddefnyddwyr y gwasanaeth bob dydd. Dywedwyd wrthym am y cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach.

## Amserol

### Gofal amserol

Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r staff yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol a bod cymorth bob amser ar gael. Dywedodd 59 o'r 65 o aelodau o staff a ymatebodd i'n harolwg staff eu bod yn gallu ymdopi â'r holl ofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff ar y ward ôl-enedigol yn ymateb i ddefnyddwyr y gwasanaeth a ddefnyddiodd eu clychau galw am gymorth yn brydlon.

Roedd Sgoriau Rhybudd Cynnar Mamolaeth (MEWS) yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth i nodi pan fo angen darparu gofal ychwanegol i amddiffyn iechyd y fenyw feichiog a'r babi. Gwelsom fod adnodd sgrinio sepsis yn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welsom, a oedd yn helpu i nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Gwelsom fod y camau y mae angen eu cymryd ar gyfer claf â sepsis wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin.

Cadarnhaodd aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn wynebu problemau â'r uchafbwyntiau aciwtedd o bryd i'w gilydd. Gan fod yr uned yn fach, gall yr uchafbwyntiau hyn gael effaith fwy sylweddol ar y llwythi gwaith ar yr adeg honno. Esboniodd y staff y polisi uwchgyfeirio i ni a phwysigrwydd defnyddio'r polisi hwnnw os bydd ganddynt unrhyw bryderon, neu os byddai unrhyw ardal bron yn llawn.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom nodi bod llawer o'r staff yn siarad Cymraeg a chlywsom yr iaith yn cael ei siarad drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd defnyddwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, sef eu hiaith gyntaf. Er bod hyn yn gadarnhaol, nodwyd gennym nad oedd pob aelod o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo laniard neu logo siaradwr Cymraeg ar ei wisg i ddangos hyn. Dywedodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oeddent yn hyderus i siarad Cymraeg. Nododd y mwyafrif o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg a ymatebodd i'r arolwg staff mai dim ond weithiau roeddent yn gwisgo'r bathodyn neu laniard 'Iaith Gwaith', a nododd rhai nad oeddent byth yn eu gwisgo.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall annog y staff i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau y gall defnyddwyr y gwasanaeth adnabod pob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd.

## Hawliau a Chydraddoldeb

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd y staff yn ymwybodol o'r ffordd i ddefnyddio'r cyfleuster Language Line a nodwyd y byddent yn defnyddio dehonglwyr wyneb yn wyneb ar gyfer apwyntiadau wedi'u cynllunio lle y bo'n bosibl.

Wrth edrych ar gofnodion defnyddwyr y gwasanaeth, gwelsom fod eu dewis iaith wedi cael ei drafod a'i gofnodi. Roedd camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol lle bo angen. Hefyd, gwelsom dystiolaeth fod anghenion diwylliannol defnyddwyr y gwasanaeth wedi cael eu parchu yn y gofal a roddwyd iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o arferion da gan fod partneriaid defnyddwyr y gwasanaeth yn cael aros dros nos. Cyflwynwyd y broses hon yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd protocol ar waith lle roedd angen i bartneriaid lofnodi cofrestr i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhai oedd yn bresennol dros nos. Prynwyd cadeiriau gogwyddol yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod eu harhosiad mor gyfforddus â phosibl.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym sut y maent yn sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori yn y gwasanaeth. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd y gwnaethant hyn a'r effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym mai meddyg ymgynghorol locwm o'r grŵp gwasanaeth oedd yn arwain yr hyfforddiant ar Amrywiaeth a Chydraddoldeb ar gyfer y staff. Yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol, roedd 24 o aelodau o'r staff wedi dechrau cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gyda Diverse Cymru a oedd yn archwilio sut y gellid gwella'r arferion amrywiaeth. Roedd y staff hefyd yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac roedd diwrnodau astudio yn cael eu neilltuo iddynt i addysgu'r cyfranogwyr am bwysigrwydd amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod y meddyg ymgynghorol locwm wedi cael ei enwebu am nifer o wobrau am ei gyfraniad i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwasanaeth. **Roedd darpariaeth yr hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn enghraifft o arfer canmoladwy yn ein barn ni.**

Nododd aelodau o'r staff:

*“Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn themâu a gaiff eu harchwilio'n aml yn hyfforddiant y staff a'u myfyrdodau. Mae un Obstetrydd Ymgynghorol arbennig, sef Dr [wedi'i olygu] wedi cyflawni llawer o waith*

*ystyrlon ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sydd wedi bod o fudd mawr i'r staff."*

*"Mae gwaith rhagorol wedi cael ei wneud yn fewnol i gynnig hyfforddiant ychwanegol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth."*

Dywedodd pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwblhaodd yr holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, nad oeddent wedi wynebu unrhyw achos o wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Darparodd y staff y gwnaethom siarad â nhw enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel y gallai pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, ddefnyddio'r gwasanaeth.

Yn ystod ein trafodaethau â'r uwch-reolwyr, disgrifiwyd gweledigaeth y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â chreu gweithlu mwy amrywiol. Roedd cynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar iawn i recriwtio'n rhyngwladol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd cofnodion defnyddwyr y gwasanaeth a welsom o safon uchel ac yn cadarnhau fod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion.

Aethom i gyfarfod rheoli risgiau a nodwyd fod gan y tîm amlddisgyblaethol drefniadau gweithio cadarn ar gyfer adolygu'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau a digwyddiadau o bwys. **Nododd y tîm arolygu fod hyn yn enghraifft o arfer canmoladwy.**

Gwnaethom nodi na roddwyd gwybod am rai o'r achosion a drafodwyd yn y cyfarfod rheoli risgiau fel digwyddiadau cenedlaethol, yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru. Wrth drafod â'r uwch-reolwyr, nodwyd mai eu proses arferol oedd dechrau ymchwiliad yn y lle cyntaf i benderfynu a oes angen rhoi gwybod am y digwyddiad. Mae'r polisi yn nodi na fydd bob amser yn bosibl penderfynu ar unwaith i ba raddau y gwnaeth diogelwch unrhyw ddigwyddiad achosi neu gyfrannu at niwed neu farwolaeth claf neu ddefnyddiwr y gwasanaeth o fewn saith diwrnod gwaith. Yn yr achos hwn, dylai sefydliadau roi gwybod yn genedlaethol am y digwyddiad, gan nodi nad yw'r sefyllfa yn glir a/neu fod ymchwiliadau'n cael eu cynnal. Gellir israddio digwyddiadau yn ddiweddarach.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau cenedlaethol yn gynnar yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru, ac ystyried israddio digwyddiadau yn ddiweddarach, lle y bo'n briodol.**

Gwelsom fod cyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd, ar adeg trosglwyddo shift, gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Er ein bod wedi nodi enghraifft o ymarfer cadarnhaol mewn perthynas â phroses drosglwyddo drylwyr yn yr ardal frysennu ac asesu dydd, nodwyd gennym nad oedd y fformat SBAR safonol wedi cael ei ddefnyddio yn ystod y drafodaeth drosglwyddo ar lafar. Gwnaethom edrych ar gofnodion un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gwnaethom nodi nad oedd yr holl ffactorau risg mewn perthynas â'i hanes a'r risg clinigol iddo wedi'u deall yn llawn na'u trosglwyddo ar lafar gan y rhai a oedd yn darparu gofal na'u cofnodi ar

hysbysfwrdd trosglwyddo gwybodaeth am gleifion. Yn dilyn y cyfarfod trosglwyddo, cawsom sicrwydd fod defnyddiwr y gwasanaeth wedi cael adolygiad obstetreg priodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio'r fformat SBAR, a bod hanes a risg clinigol defnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu cofnodi ar hysbysfwrdd gwybodaeth am gleifion a'u dogfennu yn yr adran briodol o fewn y nodiadau clinigol.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod wedi rhoi System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS) ar waith fel system frysennu ffurfiol safonol. Nododd y tîm arolygu fod cyflwyno system BSOTS yn enghraifft o arfer canmoladwy yn dilyn prosiect gwella ansawdd y gwasanaeth mamolaeth. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod llwybr BSOTS wedi cael ei roi ar waith a bod archwiliad SBAR wedi cael ei gynnal dros y ffôn yn ddiweddar. Gwnaethom ystyried y gwelliannau pellach i sicrhau y gellid rhoi system effeithiol ar waith i fesur y broses frysennu.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwella proses archwilio BSOTS er mwyn adlewyrchu dadansoddiad a'r broses dysgu o ganlyniadau, yn seiliedig ar feysydd o ddiffyg cydymffurfio.**

Roedd dwy theatr ar gyfer achosion obstetreg wedi'u lleoli gyferbyn â'r ward esgor. Roeddent yn lân, yn fawr ac yn addas at y diben. Roedd proses ar waith i sicrhau bod timau theatr llawn ar gael ar gyfer genedigaethau toriad cesaraidd dewisol a defnyddwyr y gwasanaeth o'r ward esgor yr oedd angen llawdriniaeth toriad cesaraidd dewisol brys arnynt.

Gwnaethom ystyried y ffordd roedd system theatr y gwasanaeth yn hybu gofal diogel i ddefnyddwyr y gwasanaeth a nodwyd gennym fod arferion cadarnhaol ar waith drwy gydol y sesiwn yn y theatr. Gwelsom fod rhestrau gwirio, systemau a phrosesau effeithiol a phriodol ar waith. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol. Gwelsom fod defnyddwyr y gwasanaeth a'u partneriaid yn cael eu cefnogi yn y theatr a bod y staff yn cyfathrebu â nhw mewn modd priodol, gyda pharhad gofal yn cael ei ddarparu drwy gydol eu hasesiad cyn llawdriniaeth, gofal yn ystod geni a'r broses o'u trosglwyddo i'r uned feddygol uwch.

Yn ystod y broses drosglwyddo, gwnaethom nodi enghraifft yng nghofnod clinigol defnyddiwr y gwasanaeth lle archebodd un o'r meddygon feddyginiaeth a ragnodir ar lafar dros y ffôn. Gwnaethom siarad â bydwraig a gadarnhaodd bod posibl gwneud archebion am feddyginiaeth ar lafar o bryd i'w gilydd pan nad oedd yn bosibl i'r meddyg gynnal adolygiad meddygol wyneb yn wyneb ac os oedd yn ymwybodol o hanes clinigol defnyddiwr y gwasanaeth. Rydym yn cydnabod yr

heriau a wynebir mewn uned fach, a'r nifer cyfyngedig o feddygon sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y broses o dderbyn archebion am feddyginiaeth ar lafar yn cael ei chymeradwyo fel rhan o'r diwylliant gwaith, ac roedd angen ystyried ac adolygu'r broses hon er mwyn dileu unrhyw arfer a allai fod yn annïogel.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses o archebu presgripsiynau ar lafar er mwyn dileu'r risg posibl o gamgymeriadau o ran meddyginiaethau.**

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd yr amgylchedd yn Ward Dinefwr yn hŷn ac roedd angen ei wella; fodd bynnag, roedd pob ardal glinigol yn y gwasanaethau mamolaeth yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned; fodd bynnag, ar noson gyntaf ein harolygiad, roedd dwy botel yn wag ac roedd angen gosod dwy botel newydd yn lle'r rhain.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gynwysyddion hylif dwylo yn ardaloedd y ward a ger y mynedfeydd yn cynnwys hylif dwylo i leihau'r risg o haint i ddefnyddwyr y gwasanaeth, ymwelwyr a'r staff.**

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod yr uned frysbenneu a'r uned asesu dydd wedi'u lleoli drws nesa i'w gilydd. Er bod baeau ar wahân ar gael ym mhob ardal, roedd y ddwy uned yn rhannu'r un fynedfa, allanfa, coridorau a chyfleusterau toiled. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes unrhyw risg bod rhannu'r cyfleusterau yn torri'r protocolau rheoli heintiau.

Gwelsom ganlyniadau archwiliad rheoli heintiau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y bwrdd iechyd. Roedd yr archwiliad hwn yn dangos bod y lefelau cydymffurfio â'r protocolau rheoli heintiau yn uchel Dengys yr archwiliad hylendid dwylo a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2025 lefel gydymffurfiaeth o 100% ym mhob maes.

Gwelwyd dogfennau priodol mewn perthynas â phrosesau glanhau'r pyllau geni.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau diogelwch cynhwysfawr ar waith ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau bod teuluoedd a babanod yn ddiogel. Roedd

mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bäs staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad drwy'r system intercom.

Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth o ymarfer herwgydio babanod a oedd wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror. Roedd tystiolaeth o rannu adborth a dysgu gwersi er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y babanod yn yr adran.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. Fodd bynnag, roedd y gyfradd gydymffurfio yn isel, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant diogel oedolion lefel tri. Trafodwyd hyn â'r uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym eu bod wedi nodi'r mater hwn fel maes i'w wella. Gwnaethant rannu cynllun gweithredu ar gyfer gwella â ni a oedd wedi cael ei ddatblygu rhwng y gwasanaethau mamolaeth a'r gwasanaethau diogelu.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno tystiolaeth o welliant o ran cydymffurfiaeth y staff â'r hyfforddiant diogelu gorfodol o fewn wyth wythnos i ddyddiad yr arolygiad er mwyn cadarnhau ei fod wedi cymryd camau i wella'r gydymffurfiaeth.**

Roedd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon diogelu.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwnaethom edrych ar y gwiriadau ar gyfer dyfeisiau a chyfarpar meddygol er mwyn sicrhau bod pob darn o gyfarpar, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio mewn argyfwng meddygol. Er ein bod yn fodlon ar y ffaith bod gwiriadau rheolaidd a chyson yn cael eu cynnal, roedd nifer o systemau gwahanol ar waith ar gyfer dogfennu'r gwiriadau a oedd yn ddryslyd ac yn anghyson.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull system gyfan yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwirio a chofnodi dyfeisiau a chyfarpar meddygol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng.**

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafelloedd y pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod 91% o'r staff a ymatebodd i'n harolwg staff yn teimlo fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer digonol i wneud eu gwaith.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau hyn wedi'u cwblhau bob tro.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynnal a chofnodi gwiriadau rheolaidd o dymheredd yr oergell yn cael eu cyflwyno i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio ar y tymheredd gofynnol.**

Mae fferylllydd dynodedig yn y gwasanaeth rhwng 9am a 5pm, ac mae fferylllydd ar alwad ar gael y tu allan i'r oriau hynny.

### **Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd**

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, ac y byddai unrhyw risgiau parhaus o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd yn cael eu monitro. Dywedodd y staff wrthym fod y bydwagedd clinigol sy'n goruchwyllo wedi hyrwyddo pwysigrwydd cynnal asesiadau risg a oedd yn cynnwys sesiwn 'cinio a dysgu' er mwyn trafod risgiau, nodi risgiau a'u rheoli. Roedd prosiect gwella ansawdd ar waith ar hyn o bryd er mwyn adolygu'r asesiad risg cyfredol cyffredinol ar gyfer Cymru Gyfan i'w addasu'n benodol i leihau'r risg o ddatblygu briwiau pwyso i ddefnyddwyr y gwasanaeth mamolaeth.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Gwelsom fod systemau addas ar waith ar gyfer caffael a rhannu gwybodaeth berthnasol. Yn ystod yr arolygiad, llwyddodd yr uwch-reolwyr i roi sicrwydd i ni fod archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a rhoesant dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Roedd y ddogfennaeth archwilio a welsom yn cynnwys archwiliad hylendid dwylo misol, archwiliadau o fatresi a hapwiriadau, gan gynnwys cwestiynau yn ymwneud â rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, yr amgylchedd gofal, diogelwch cleifion a lleihau risgiau. Roedd y dystiolaeth yn dangos cydymffurfiaeth uchel â'r holl archwiliadau ym mis Mawrth a mis Ebrill 2025.

Gwelsom adnoddau monitro priodol gan gynnwys Dangosfwrdd Mamolaeth a Cherdyn Sgorio a oedd yn defnyddio graddau Coch, Oren a Gwyrdd ac yn cael ei ddiweddarau bob mis. Gwelsom dystiolaeth fod gwybodaeth a themâu yn cael eu rhannu'n briodol.

### **Maeth a hydradu**

Gwnaethom edrych ar gofnodion defnyddwyr y gwasanaeth a gwelsom dystiolaeth fod siartiau cydbwysedd hylifau wedi cael eu cwblhau i safon dda iawn. Roedd yn gadarnhaol nodi hyn gan fod y gwasanaeth wrthi'n datblygu siart cydbwysedd hylifau a oedd yn benodol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth ar adeg ein harolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2022. **Gwnaethom nodi bod hyn yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom y staff yn cynnig diodydd poeth ac oer i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd jygiau o ddŵr ar gael i bob un ohonynt yn hawdd. Gwnaethom siarad â defnyddwyr y gwasanaeth a ddywedodd wrthym eu bod yn cael dewis yr hyn y maent am ei fwyta a'i yfed. Roedd bwyd poeth ar gael, ynghyd â chyflenwad o fwyd a byrbrydau iach y tu allan i'r amseroedd bwyd. Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth i fodloni gofynion deietegol penodol, gan gynnwys alergeddau, anoddefiadau a gofynion crefyddol neu ddiwylliannol.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw o safon dda, a bod cynlluniau gofal yn cael eu dogfennu'n dda rhwng y timau amlddisgyblaethol. Gwelsom fod Sgôr Rhybudd Obstetrig Cynnar wedi'i Haddasu (MEOWS) yn cael ei chwblhau'n gyson yn y cofnodion a welsom.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion a gawsom i'n harolwg staff yn gadarnhaol, ac roedd 64 o'r 65 o aelodau o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn ei roi i'r cleifion. Roedd yr un nifer o staff yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hysbyty iddyn nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu a dywedodd 60 o'r 65 o aelodau o'r staff y byddent yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad eu bod yn hapus ac yn mwynhau eu swyddi.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*"Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n dda iawn yn ysbyty Glangwili a fy mod yn aelod gwerthfawr o'r tîm. Mae cyfle bob amser i'r staff ddysgu, gwella a gwneud newidiadau cadarnhaol i'r gweithlu."*

*"Rwy'n teimlo'n falch iawn o weithio fel rhan o'r tîm mamolaeth yn Hywel Dda. Rwy'n gweithio ar Ward Esgor ac yn teimlo fy mod yn rhan o dîm ffantastig sy'n darparu gofal diogel a rhagorol i'n menywod a'u teuluoedd. Mae'n amgylchedd cefnogol ar y cyfan. Mae llawer o gyfleoedd ar gael bob amser i addysgu a dysgu. Rwyf hefyd yn teimlo y gallaf fynd at bob aelod o'r uwch-staff/uwch-reolwyr i fynegi unrhyw bryderon neu syniadau."*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd hwn wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar, yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth i'r bwrdd iechyd. Ar y cyfan, roedd ymatebion y staff i'r arolwg staff mewn perthynas â phresenoldeb uwch-reolwyr yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd 11 o'r 65 o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn. At hynny, roedd 10 o'r 65 o aelodau o staff hefyd yn anghytuno bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Yn ystod yr arolygiad, roedd rheolwyr i'w gweld ym mhob rhan o'r uned a dywedodd llawer o'r staff wrthym eu bod yn hawdd mynd atynt.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

***“Mae'r diwylliant yma yn arbennig. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi yn y gweithle. Mae pob aelod o'r tîm o uwch-reolwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Ni chefais brofiad fel hynny yn fy lleoliad gwaith blaenorol...”***

Er y cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol gan y staff mewn perthynas â'r uwch-reolwyr, roedd rhai o'r sylwadau yn dangos diffyg presenoldeb ac ymgysylltiad ar lefel y gyfarwyddiaeth. Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried y mater hwn a myfyrio arno.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth, cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol, cyfarfodydd amlddisgyblaethol a chyfarfodydd i ystyried Cardiotocograph Cynenedigol (CTG) wythnosol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus y gallant godi pryderon a gwnaethant gyfeirio at ddiwylliant cadarnhaol mewn perthynas â chofnodi ar Datix a dysgu o ddigwyddiadau. Dywedodd pawb a ymatebodd i'n harolwg staff fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Dywedodd bron pob aelod o'r staff fod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg. Roedd nifer o sylwadau'r staff a gafwyd yn yr arolwg staff yn cefnogi ein canfyddiadau. Roeddent yn cynnwys y sylwadau canlynol:

***“Mae'r ffordd y mae'r broses rheoli risgiau a llywodraethu wedi newid wedi trawsffurfio'r ffordd rydym bellach yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol i roi gwybod am ddigwyddiadau a dysgu ohonynt, a datblygu llwybrau newydd ac ati i sicrhau nad ydynt yn digwydd yn y dyfodol.”***

Yn ystod yr arolygiad, cawsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl bolisiau a chanllawiau mamolaeth yn gyfredol, neu fod estyniad o chwe mis wedi cael ei ganiatáu i'r dyddiad dod i ben. Gwnaethom edrych ar y polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau obstetreg a bydwreigiaeth a'r polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol meddygol a oedd ar gael ar WISDOM a oedd yn dangos nad oedd rhai o'r polisiau yn gyfredol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod canllawiau a pholisiau cyfredol ar gael i'r staff ar WISDOM, gan gynnwys y dyddiadau y disgwylir iddynt gael eu hadolygu.

Roedd cylchlythyr mamolaeth yn cael ei lunio bob mis gan y gwasanaeth a oedd yn llawn gwybodaeth. Mae cyfraniadau i'r cylchlythyr yn cynnwys bydwraig profiad mamolaeth, risgiau clinigol a llywodraethu, rheolwyr y ward, goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwragedd, y tîm datblygu ymarfer a'r fydwraig iechyd meddwl amenedigol. Roedd yr holl ganllawiau newydd, y canllawiau diwygiedig a'r canllawiau a adolygwyd wedi'u nodi yn y cylchlythyr misol mamolaeth. **Nodwyd gennym fod y cylchlythyr yn enghraifft o arfer canmoladwy.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom dîm arwain ymroddedig, angerddol, cefnogol a gweledol yn ysbyty Glangwili, gyda dysgu wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Dywedodd pob un o'r bydwragedd y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn eu rôl yn fawr. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn ddilys a bod y staff yn gwrandao arnynt wrth iddynt godi pryderon. Nododd y staff mewn swyddi arwain iau eu bod hwythau hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn.

Roedd yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan y staff ar bob lefel yn cael ei adlewyrchu drwy gyflawniadau'r gwasanaeth o ennill nifer o wobrau. Yn gynharach yn 2025, enillodd y gwasanaeth dair gwobr Maternity Unit Marvels y DU (MUM) mewn perthynas â diwylliant a gwaith tîm gan gynnwys y wobr am y gweithlu gorau yn y DU. Hefyd, cafodd y bwrdd iechyd ei gydnabod ar lefel genedlaethol gan Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn ddiweddar am sicrhau'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth â gofal cynenedigol amserol yng Nghymru.

Gwelsom y staff yn cynnal rowndiau ward ac roeddent yn hamddenol, yn fanwl ac yn cynnwys elfen o addysgu. Roedd y rowndiau ward yn cynnwys myfyrwyr meddygol a myfyrwyr bydwreigiaeth lle roedd eu nodau dysgu unigol wedi'u cynnwys.

Drwy drafod â'r uwch-reolwyr ac adolygu rotas y staff a'u haciwtedd, gwelsom fod y lefelau staffio yn ymddangos fel petaent yn cael eu rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Roedd trafodaethau â rheolwyr y ward yn ategu hyn. Dywedodd y staff wrthym, pe bai unrhyw brinder staff, byddai'r uwch fydwragedd neu'r bydwragedd arbenigol yn camu i'r adwy pe bai angen.

Fodd bynnag, nid oedd sylwadau rhai o'r staff yn adlewyrchu hyn. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

*“Mae staffio weithiau'n broblem, rydym yn aml yn brin o fydwragedd ar shifft ac mae llawer o shifftiau ychwanegol ar gael weithiau ar fyr rybudd. Gall beri pryder wrth gyrraedd y gwaith pan nad oes digon o staff ar gael.”*

*“Rwy'n gweithio ar yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd. Mae'r staff yn aml yn cael eu defnyddio ar wardiau eraill ac yna gwahoddir menywod risg isel i'r uned frysbenno i gael eu hasesu. Ni ddylai hyn ddigwydd.”*

*“Dylid bod chwe gofalwr iechyd ar bob shifft bob amser, felly os bydd rhywun yn sâl byddwn ond lawr i bum gofalwr iechyd. Pan fo pum gofalwr iechyd yn cyflenwi shifft ac un yn sâl, mae hynny'n gadael dim ond un gofalwr iechyd ar bob ward, a gall hyn fod yn her i'r gofawyr iechyd.”*

Dylai'r uwch-reolwyr fyfyririo ar y sylwadau hyn a pharhau i fonitro a rheoli'r lefelau staffio yn briodol.

Dylai'r bwrdd iechyd fyfyririo ar y sylwadau a wnaed gan y staff am y canlynol:

- Diffyg presenoldeb ac ymgysylltiad gan dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth
- Prinder staff ar brydiau a phrosesau rheoli y lefelau staffio.

Siaradodd y tîm arolygu â'r meddygon a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gorff y meddygon ymgynghorol. Disgrifiodd yr arweinydd clinigol strwythur rheoli'r uned i ni, gyda nifer isel o swyddi gwag a chyfraddau isel o salwch hirdymor ymhlith y staff meddygol. Nododd y tîm arolygu fod y model staff ar gyfer meddygon iau yn briodol i'r uned gwasanaeth. Roedd cynllun ar waith i gynyddu oriau'r meddyg ymgynghorol i 60 awr yr wythnos drwy recriwtio er mwyn diwallu anghenion yr uned. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn amser y meddyg ymgynghorol yn yr uned ac yn gostwng amllder y shifftiau ar alwad.

Gwnaethom edrych ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad ar gyfer y staff bydwreigiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gyfradd hon yn 80% ar hyn o bryd ac roedd cynllun ar waith i wella'r gyfradd gydymffurfio ymhellach. Byddai hyn yn sicrhau gweithlu medrus a galluog, cefnogi llesiant a sicrhau y gellid mynd i'r afael â phroblemau perfformiad a'u datrys mewn modd amserol.

Cadarnhaodd adborth o'r arolwg staff fod 60 o'r 65 o staff yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Fodd bynnag, dim ond 11 o'r 21 o aelodau o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg oedd yn cytuno eu bod wedi cael cyfle i

gwblhau eu hyfforddiant yn Gymraeg. Er y cawsom sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â hyfforddiant, roedd sylwadau aelodau eraill o'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Rydyn ni'n cael ein cefnogi'n dda ar shifft ac wrth fyfyrrio ar ôl digwyddiadau os bydd angen. Mae cyfleoedd dysgu ar gael yn aml ar fyfyrrio neu caiff cyrsiau eu cynnal ond mae'n rhaid i ni gwblhau'r rhain yn ein hamser ein hunain, sy'n anodd.”*

*“Roedd dechrau mewn rôl reoli o rôl band 7 nad oedd yn rhan o'r tîm rheoli yn heriol. Mae nifer fawr o agweddau gwahanol ar reoli, gan gynnwys adolygiadau o berfformiad, rheoli presenoldeb yn y gwaith ac ati. Byddai hyfforddiant penodol wedi'i gynllunio ymlaen llaw wedi bod yn ddefnyddiol iawn.”*

Yn ystod trafodaethau â'r staff am yr uned fonitro fanylach, ni chafodd y tîm arolygu sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu rolau i ofalu am ddefnyddwyr mwy cymhleth y gwasanaeth .

Dylai'r bwrdd iechyd werthuso lefel sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr uned fonitro fanylach er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn briodol ar gyfer eu rôl wrth ofalu am ddefnyddwyr mwy cymhleth y gwasanaeth .

Gwnaethom edrych ar y data ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y daenlen yn nodi bod angen gwella'r gydymffurfiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau gwelliant o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Wrth drafod â'r uwch-reolwyr, tynnwyd sylw at eu nod i sicrhau bod diwylliant dysgu yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Rhoddwyd pwyslais ar greu diwylliant o ddiogelwch seicolegol ar gyfer y staff. Ategwyd hyn drwy drafodaethau â'r staff yn ystod yr arolygiad.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r diwylliant yn yr uned famolaeth wedi datblygu'n eithriadol dros y blynyddoedd gyda newidiadau mawr i'r ethos wedi'u gwneud, y mae cydweithwyr wedi eu croesawu'n fawr. Mae pwyslais sylweddol ar*

*ddysgu a datblygu dros ofn a beio sydd wedi fy ngwneud yn ymarferydd mwy diogel.”*

*“Mae'n amgylchedd cefnogol iawn i weithio ynddo ac rwy'n teimlo'n gryf bod pob aelod o'r tîm yn cael ei werthfawrogi. Mae'r tîm risgiau clinigol wedi gwneud gwelliannau mawr i ddiogelwch seicolegol y staff ac mae'n agored ac yn dryloyw iawn ...”*

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel drwy gydol ein harolygiad.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod archwiliadau misol yn cael eu cynnal ym mhob un o ardaloedd y ward i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu storio mewn troli neu gwpwrdd y gellid ei gloi.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a chefnogi datblygiad y staff. Roedd pob grŵp staff y gwnaethom siarad ag ef yn barod i dderbyn newidiadau, dilyn mentrau a chymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd.

Gwelsom dystiolaeth o ganlyniadau effeithiol yn sgil cymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd blaenorol yn y gwasanaeth. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym am brosiect a oedd wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar i gefnogi'r staff yr oedd trawma dioddefwyr wedi effeithio arnynt.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                                                          | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|----------------------------------------|--------------------------------|
| <b>Llywodraethu Gwybodaeth</b><br><br>Nid oedd UNRHYW bryderon yr oedd angen mynd i'r afael â nhw yn ystod yr arolygiad |                                                        |                                        |                                |
|                                                                                                                         |                                                        |                                        |                                |
|                                                                                                                         |                                                        |                                        |                                |
|                                                                                                                         |                                                        |                                        |                                |
|                                                                                                                         |                                                        |                                        |                                |
|                                                                                                                         |                                                        |                                        |                                |

## Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Gwasanaethau Mamolaeth Glangwili

**Dyddiad yr arolygiad:** 12, 13 a 14 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater                                                   | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| 1. Nid oedd UNRHYW faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch |                            |                 |                                   |                  |          |
| 2.                                                                      |                            |                 |                                   |                  |          |
| 3.                                                                      |                            |                 |                                   |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:** Cerian Llewellyn

**Enw (priflythrennau):** Cerian Llewellyn

**Teitl swydd:** Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro

**Dyddiad:**

**14/07/2025**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gwasanaethau Mamolaeth Glangwili

Dyddiad yr arolygiad: 12, 13 a 14 Mai 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater |                                                                                                                                                                                                                    | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                             | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                         | Swyddog cyfrifol                | Amserlen         |
|-----------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|------------------|
| 1.                    | <b>Teg</b><br>Nid oedd pob aelod o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo laniard neu logo siaradwr Cymraeg ar ei wisg i ddangos hyn. Dywedodd rhai aelodau o'r staff nad oeddent yn hyderus i siarad Cymraeg. | Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall annog y staff i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau y gall defnyddwyr y gwasanaeth adnabod pob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd. | Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod laniardau ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn tynnu sylw'r cleifion at y ffaith ei fod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 22 Awst 2025     |
|                       |                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                        | Bydd Cylchlythyr Misol yr Uned Famolaeth yn cyfeirio pob aelod o'r staff at gyrsiau Cymraeg er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth a'u hyder                   | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 30 Tachwedd 2025 |
| 2.                    | <b>Gofal Diogel</b><br>Ni roddwyd gwybod am rai o'r achosion a drafodwyd yn y                                                                                                                                      | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ar waith i roi                                                                                                                                                       | Gall y gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd gadarnhau bod mesurau wedi'u rhoi ar waith                                                                             | Rheoli Diogelwch                | Wedi'i gwblhau   |

|    |                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                        |                                                                  |
|----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|
|    | cyfarfod rheoli risgiau fel digwyddiadau cenedlaethol, yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru.       | gwybod am ddigwyddiadau cenedlaethol yn gynnar yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru, ac ystyried israddio digwyddiadau yn ddiweddarach, lle y bo'n briodol.                                                     | i adolygu a chydymffurfio â'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau adroddadwy cenedlaethol yn gynnar, yn unol â Pholisi Cofnodi Digwyddiadau Llywodraeth Cymru.<br>Caiff pob digwyddiad ei ystyried er mwyn rhoi gwybod amdano yn ystod trafodaethau IMG cynnar ac os bydd angen ymdrin â'r digwyddiad hwnnw rhoddir gwybod amdano cyn gynted â phosibl. | Cleifion a Sicrwydd                                                                                    |                                                                  |
| 3. | <b>Gofal Diogel</b><br>Nid oedd y fformat SBAR safonol wedi cael ei ddefnyddio yn ystod cyfarfod trosglwyddo ar lafar. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio fformat SBAR, a bod hanes a risg glinigol defnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu cofnodi ar hysbysfwrdd gwybodaeth am gleifion a'u | Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y caiff dull safonol o fformat SBAR ei roi ar waith yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo a gaiff ei fonitro gan uwch-glinigwyr yn ystod pob cyfarfod<br><br>Bydd Cylchlythyr Risg a Llywodraethu yr Uned Famolaeth yn ategu pwysigrwydd sicrhau bod dull cyfannol ar waith yn ystod cyfarfodydd                               | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 31 Awst 2025<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>30 Medi 2025 |

|    |                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                        |                                        |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|
|    |                                                                                                                                                                    | dogfennu yn yr adran briodol o fewn y nodiadau clinigol.                                                                                                                                 | trosglwyddo sy'n cynnwys hanes perthnasol a darbodus i sicrhau y caiff gofal ei drosglwyddo yn effeithlon, yn amserol ac yn ddiogel                                                                                                                                                                                           |                                                                        |                                        |
| 4. | <b>Gofal Diogel</b><br>Gellid rhoi system effeithiol ar waith i fesur y broses frysbenneu ar gyfer System Brysbenneu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS). | Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwella proses archwilio BSOTS er mwyn adlewyrchu dadansoddiad a'r broses dysgu o ganlyniadau, yn seiliedig ar feysydd o ddiffyg cydymffurfio. | Caiff archwiliad o'r BSOTS ei gynnal a fydd yn cynnwys cydymffurfio â phob rhan o ganllawiau BSOTS.<br><br>Defnyddir y data o'r archwiliad i ddatblygu cynllun gweithredu clir a gwrthrychol ar gyfer y meysydd i'w datblygu a chaiff canlyniadau'r gwersi a ddysgwyd eu dosbarthu o fewn y gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd cyfan | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro<br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 17 Hydref 2025<br><br>30 Tachwedd 2025 |
| 5. | <b>Gofal Diogel</b><br>Roedd meddyg wedi cyflwyno presgripsiwn am feddyginiaeth ar lafar dros y ffôn.                                                              | Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses o archebu presgripsiynau ar lafar er mwyn dileu'r risg posibl o                                                                                    | Dylid atgoffa'r staff drwy Gylchlythyr Misol yr Uned Famolaeth ac yn ystod sesiynau goruchwyllo grŵp a gaiff eu cynnal gan y Goruchwylwyr Clinigol ar                                                                                                                                                                         | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro                                        | 31 Hydref 2025                         |

|    |                                                                                                                           |                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                               |                                             |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
|    |                                                                                                                           | gamgymeriadau o ran meddyginiaethau.                                                                                      | <p>gyfer Bydwagedd mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir cyflwyno presgripsiynau ar lafar yn unol â phenderfyniad proffesiynol y nyrsys a diogelwch y cleifion neu fel arall byddai gofal y cleifion yn cael ei beryglu.</p> <p>Caiff posteri eu gosod ym mhob ardal glinigol i atgoffa'r staff o'r uchod.</p> <p>Caiff archwiliad o bresgripsiynau a wneir ar lafar ei gynnal i nodi'r meysydd i'w gwella</p> | <p>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro</p> | <p>31 Hydref 2025</p> <p>31 Hydref 2025</p> |
| 6. | <b>Gofal Diogel</b><br>Roedd dau o'r cynwysyddion hylif diheintio dwylo yn wag ac roedd angen gosod dau gynhwysydd arall. | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gynwysyddion hylif dwylo yn ardaloedd y ward a ger y mynedfeydd yn cynnwys hylif | Mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Gwesty, dylid atgoffa pob aelod o'r staff bod angen rhoi gwybod am achosion lle nad yw hylif dwylo ar gael yn hawdd a sicrhau bod                                                                                                                                                                                                                                                     | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro                                               | 30 Gorffennaf 25                            |

|    |                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                               |                                                    |
|----|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
|    |                                                                                                                                                         | dwyllo i leihau'r risg o haint i ddefnyddwyr y gwasanaeth, ymwelwyr a'r staff.                                                                                                                                                           | mwyr o'r hylif ar gael ar fyrder                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                               |                                                    |
| 7. | <b>Gofal Diogel</b><br>Roedd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelu yn isel, yn enwedig ar gyfer hyfforddiant diogelu oedolion lefel tri. | Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno tystiolaeth o welliant o ran cydymffurfiaeth y staff â'r hyfforddiant diogelu gorfodol o fewn wyth wythnos i ddyddiad yr arolygiad er mwyn cadarnhau ei fod wedi cymryd camau i wella'r gydymffurfiaeth. | Caiff cynllun gweithredu manwl ei lunio a chytunir arno ar y cyd ag uwch-arweinwyr o'r Tîm Diogelu i sicrhau bod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant diogelu gorfodol yn gwella.<br><br>Caiff Cylchlythyr Misol yr Uned Famolaeth ei ddiweddarau â'r holl wybodaeth berthnasol am gwblhau hyfforddiant diogelu.<br><br>Caiff y broses o fonitro cydymffurfiaeth ei hadolygu bob mis ym mhob rhan o'r gwasanaeth gan yr uwch-dîm mamolaeth. Bydd hyn yn sicrhau | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro<br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro<br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 20 Medi 25<br><br>30 Medi 2025<br><br>30 Medi 2025 |

|    |                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                 |              |
|----|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------|
|    |                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                         | cynnydd cyson yn lefel y gydymffurfiaeth                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                 |              |
| 8. | <b>Gofal Diogel</b><br>Roedd nifer o systemau gwahanol ar waith ar gyfer dogfennu'r gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal ar ddyfeisiau a chyfarpar meddygol ac roedd hyn yn ddryslyd ac yn anghyson. | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull system gyfan yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwirio a chofnodi dyfeisiau a chyfarpar meddygol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng. | Yn ystod yr arolygiad, roedd dull cymysg o ffurflenni papur a ffurflenni digidol ar waith ar gyfer dyfeisiau a chyfarpar meddygol. Bydd y gwasanaeth yn rhoi system gyfan unigol ar waith ar gyfer gwiriadau a gaiff eu cynnal ar ddyfeisiau a chyfarpar meddygol er mwyn osgoi unrhyw anghysondebau yn y dyfodol. | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 30 Awst 2026 |
| 9. | <b>Gofal Diogel</b><br>Nid oedd gwiriadau o dymheredd yr oergelloedd wedi'u cofnodi'n ddyddiol.                                                                                                    | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynnal a chofnodi gwiriadau rheolaidd o dymheredd yr oergell yn cael eu cyflwyno i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei                                                                    | Caiff gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergelloedd a'r broses gofnodi eu hymgorffori'n ffurfiol yn y gwiriadau dyddiol a chânt eu monitro gan reolwr y ward esgor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth                                                                                                                  | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 22 Awst 2025 |

|     |                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                        |                                    |
|-----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|
|     |                                                                                                                                                                                                                                           | storio ar y tymheredd gofynnol.                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                        |                                    |
| 10. | <b>Gofal Effeithiol</b><br>Roedd y polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau obstetreg a bydwreigiaeth a'r polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol meddygol a oedd ar gael ar WISDOM yn dangos nad oedd rhai o'r polisïau yn gyfredol. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod canllawiau a pholisïau cyfredol ar gael i'r staff ar WISDOM, gan gynnwys y dyddiadau y disgwylir iddynt gael eu hadolygu. | Bydd y Cylchlythyr ar Risg a Llywodraethu yn atgoffa pob aelod o'r staff y dylid cael gafael ar y canllawiau a'r polisïau drwy fewnwyd y Bwrdd Iechyd i ddechrau gan fod prosesau llywodraethu gwell ar waith ar gyfer hyn.<br><br>Gan mai tudalen gymorth allanol ar y we yw WISDOM, bydd y gwasanaeth mamolaeth ynghyd â'r tîm polisïau canolog yn gweithio gyda'r darparwr i adolygu a monitro'r canllawiau a sicrhau bod yr holl ganllawiau yn gyfredol | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro<br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro | 12 Medi 2025<br><br>30 Hydref 2025 |
| 11. | <b>Gofal Effeithiol</b><br>Nododd sylwadau a gafwyd yn ein harolwg staff a'n harsylwadau yn ystod ein                                                                                                                                     | Dylai'r bwrdd iechyd fyfyrto ar y sylwadau a'r arsylwadau ar                                                                                                 | Mae tîm craidd wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i ddarparu gofal cyfannol yn yr uned fonitro fanylach, a                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro                                        | 30 Tachwedd 2025                   |

|     |                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                             |                  |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|
|     | harolygiad feysydd y dylai'r bwrdd iechyd eu hystyried mewn perthynas â hyfforddiant.                                                    | dudalen 24 o'r adroddiad, gan gynnwys uwchsgilio bydwagedd sy'n gweithio yn yr uned fonitro fanylach ac ystyried a ellid gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. | <p>chaiff dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant ei gynnal i nodi meysydd penodol i'w gwella.</p> <p>Rydym wedi adolygu a diweddarau'r rhaglen hyfforddiant gorfodol PROMPT ar gyfer 2025/2026 a bydd yn adlewyrchu'r broses o gydnabod a rheoli cleifion sy'n gwaethygu i adlewyrchu diwylliant ehangach o ddysgu</p> | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro                                                                             | 30 Tachwedd 2025 |
| 12. | <b>Gofal Effeithiol</b><br>Adolygwyd y taenlenni hyfforddiant gorfodol a nodwyd bod angen gwella'r gydymffurfiaeth ym mhob rhan ohonynt. | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau gwelliant o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol.                                                                                                 | Caiff yr adroddiad ar ddata cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ei ddiweddarau i ddangos y lefel o gydymffurfiaeth gyffredinol yn unol â'r safonau. Bydd hyn yn helpu i fonitro cydymffurfiaeth yn fanylach ac mewn amser real.                                                                             | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro / Obstetregydd Clinigol Arweiniol / Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Obstetreg | 31 Hydref 2025   |

|  |  |  |                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                             |                |
|--|--|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
|  |  |  | Bydd y gwasanaeth yn cynnal ymarfer cwmpasu meysydd penodol o hyfforddiant gorfodol lle bo angen gwneud gwelliannau, a chaiff cynllun i gynyddu cydymffurfiaeth ei ymgorffori a'i adolygu gan uwch-arweinwyr. | Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro / Obstetregydd Clinigol Arweiniol / Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Obstetreg | 31 Hydref 2025 |
|--|--|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:** Cerian Llewellyn

**Enw (priflythrennau):** Cerian Llewellyn

**Teitl swydd:** Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro

**Dyddiad:** 14/07/2025 Wedi'i ddiweddarw 25/07/2025